

Eich canllaw i Ddefnyddio Cyfreithiwr

Bydd y rhan fwyaf ohonom yn ceisio cyngor cyfreithiol rywbryd yn ein bywydau. Mae rhai o'r materion mwyaf cyffredin yn ymwneud â phrynu tŷ, cael ysgariad neu wneud ewyllys. Ond efallai y bydd angen cymorth arnoch hefyd os ydych yn ymgartrefu gyda'ch partner, yn dechrau eich busnes eich hun neu'n trefnu materion ariannol unigolyn hysbysu.

Gall y gyfraith fod yn gymhleth felly mae'n bwysig eich bod yn cael y cyngor gorau posibl. Mae cyfreithwyr yn arbenigo yn y gyfraith a'r modd y mae'n effeithio arnoch. Felly er mwyn cael cyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno, cysylltwch â chyfreithiwr.

Dewis cyfreithiwr

Gallwch ddod o hyd i restr o gyfreithwyr yn hawdd drwy ddefnyddio ein llinell gymorth neu ein gwefan. Ffoniwch **020 7320 5650** neu ewch i www.lawsociety.org.uk/findasolicitor i ddechrau chwilio am gyfreithiwr, ond meddylwch yn ofalus am ba fath o wasanaeth y mae arnoch ei angen. Dyma rai o'r materion y dylech eu hystyried:

Pa fath o gymorth cyfreithiol sydd ei angen arnaf?

Gall cyfreithwyr gynnig gwasanaethau mewn amrywiaeth eang o feysydd cyfreithiol, er bod mwy a mwy o gyfreithwyr unigol yn arbenigo mewn un neu ddau faes yn unig. Os na all eich cwmni cyfreithwyr arferol eich helpu gyda'ch holl anghenion, bydd yn fwy na pharod i'ch cyfeirio at gyfreithiwr arall. Neu, os bydd yn well gennych, gall gael cyngor gan arbenigwr ar eich rhan.

Sut y gallaf fod yn sicr eu bod yn gymwys i'm helpu?

Mae'n rhaid i bob cyfreithiwr mewn practis preifat feddu ar dystysgrif ymarfer a roddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, sef y rheolydd annibynnol (a sefydlwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr) sy'n gosod y rheolau y mae'n rhaid i bob cyfreithiwr eu dilyn. Mae'r dystysgrif hon yn gwarantu bod y cyfreithiwr yn gymwys i ymarfer a bod ganddo yswiriant i'ch diogelu os bydd rhywbeth yn mynd o'i le. Os ydych am fod yn sicr, gofynnwch am gael gweld y dystysgrif (a ddylai fod i'w gweld yn swyddfa eich cyfreithiwr) neu ffoniwch yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr ar **0870 606 2555** neu ewch i www.sra.org.uk.

Gall cyfreithwyr ddefnyddio staff eraill i ymdrin â rhai agweddau ar eich achos. Caiff y staff hyn eu goruchwyllo bob amser. Gallwch hefyd ofyn i'ch cyfreithiwr a yw'r practis wedi ennill unrhyw wobrau ansawdd i brofi bod ganddo safonau rheoli a gofal cwsmeriaid uchel. Os bydd y cwmni wedi derbyn gwobr ansawdd 'Lexcel', byddwn yn gallu cadarnhau hyn (gallwch anfon e-bost atom yn lexcel@lawsociety.org.uk neu ffoniwch **020 7320 5933**).

Gall cyfreithwyr unigol hefyd fod yn aelodau o 'gynlluniau achredu sicrwydd ansawdd', a redir gan Gymdeithas y Cyfreithwyr neu'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr sy'n cwmpasu nifer o feysydd cyfreithiol. Er mwyn ymuno ag un o'r cynlluniau hyn, mae'n rhaid i gyfreithwyr ddangos bod ganddynt gryn dipyn o wybodaeth a sgiliau arbenigol. Cewch fanylion cyfreithwyr yn eich ardal sy'n aelodau o un o'r cynlluniau hyn drwy fynd i'n gwefan a chwilio am 'Find a Solicitor', www.lawsociety.org.uk Gallwch gael rhagor o fanylion am gynlluniau penodol o'r wefan.

Ble mae swyddfa'r cyfreithiwr?

Mae'n amlwg bod lleoliad swyddfa cyfreithiwr yn fater o gyfleustra. A oes angen i chi ddefnyddio cyfreithiwr sy'n agos i'ch cartref? Os felly, bydd hyn yn cyfyngu ar eich dewis. Dylai cyfreithwyr fod yn fwy na pharod i ymweld â chi gartref, felly os ydych yn ei chael hi'n anodd teithio, mae'n werth holi am hyn.

A ydynt yn gwneud gwaith cymorth cyfreithiol?

Os ydych ar incwm isel neu'n derbyn budd-daliadau, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol. I gael gwybod cysylltwch â'ch canolfan cyngor ar bopeth neu'ch canolfan cyfraith leol. Mae rhai cyfreithwyr yn gwneud gwaith cymorth cyfreithiol ond nid pob un. Ceir rhestr o gyfreithwyr sy'n gwneud gwaith cymorth cyfreithiol ar wefan y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn <http://legaladviserfinder.justice.gov.uk>

A ydynt yn gweithio ar sail ffi amodol?

Ar gyfer rhai mathau o achos, gan gynnwys anafiadau personol, efallai y bydd eich cyfreithiwr yn fodlon gweithio ar sail ffi amodol. Fel arfer gelwir hyn yn drefniant 'dim llwyddiant, dim ffi'. Os enillwch yr achos, telir ffioedd eich cyfreithiwr gan yr ochr arall fel arfer. Os collwch, ni fydd yn rhaid i chi dalu ffioedd eich cyfreithiwr. Efallai y gofynnir i chi drefnu polisi yswiriant i dalu costau'r ochr arall os byddwch yn colli. Ceir gwahanol fathau o drefniadau ffioedd amodol, ond nid yw pob cyfreithiwr yn cymryd achosion ar y sail hon.

A fyddant yn sympathetig?

Os bydd angen i chi weld cyfreithiwr ynghylch mater personol, fel tor-perthynas, byddwch am ddewis rhywun y byddwch yn teimlo'n gyfforddus ag ef. Bydd y rhan fwyaf o gyfreithwyr yn dangos cydymdeimlad a dealltwriaeth os ydych yn gofidio, ond efallai y bydd yn well gennych ddelio â rhywun sydd o'r un rhyw â chi. Peidiwch â bod ofn dweud, os mai dyma sy'n well gennych.

A fydd yn siarad yr un iaith â mi?

Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, dylech grybwyll hynny pan fyddwch yn ceisio dod o hyd i gyfreithiwr. Os byddwch yn dweud wrthynt mewn da bryd, gallant drefnu i gyfeithydd fod yn bresennol yn eich cyfarfodydd.

Rwyf yn anabl – a wnânt addasiadau rhesymol ar fy nghyfer?

Mae'n rhaid i gyfreithwyr sicrhau y gall pobl anabl ddefnyddio eu gwasanaethau. Os oes gennych anabledd sydd angen addasiadau rhesymol, dylech ddweud wrth eich cyfreithiwr ar unwaith. Bydd yn dweud wrthynt pa addasiadau y gall eu gwneud.

Trefnu apwyntiad

Wedi i chi ddod o hyd i gyfreithiwr addas, efallai y bydd angen i chi drefnu apwyntiad i gyfarfod neu drafod eich achos dros y ffôn. Os ydych yn cael cyfarfod, rhoddi wybod i'r cyfreithiwr a ydych am ddod â rhywun gyda chi. Gofynnwch a ddylech ddod ag unrhyw ddogfennau gyda chi, megis prawf adnabod neu brawf o incwm.

Eich canllaw i Ddefnyddio Cyfreithiwr

Byddwch yn barod

Po fwyaf o waith paratoi a gwnech cyn yr apwyntiad, gorau oll. Gwnech restr o'r prif bwyntiau yr ydych am eu gwneud neu'r cwestiynau yr ydych am eu gofyn. Casglwch unrhyw waith papur sy'n berthnasol a rhowch ryw fath o drefn arno fel bod modd cyfeirio ato yn gyflym. Bydd hyn yn ei gwneud yn gyflymach ac yn haws i'ch cyfreithiwr ddeall eich amgylchiadau a rhoi cyngor cywir i chi.

Yr apwyntiad

Gofynnwch pa mor hir y bydd yr apwyntiad yn para er mwyn sicrhau eich bod yn cyflwyno eich holl bwyntiau cyn i'r amser ddod i ben. Sicrhewch fod eich nodiadau o'ch blaen, ticiwch bob pwynt wrth i chi ei drafod, a pheidiwch â bod ofn holi os nad ydych yn deall rhywbeth.

Yn olaf, gofynnwch i'ch cyfreithiwr anfon llythyr atoch i grynhoi'r cyngor a roddwyd i chi, a chadarnhau'r manylion canlynol:

- Ei fod wedi derbyn y gwaith.
- Enw'r person fydd yn delio â'ch achos o ddydd i ddydd.
- Yr amser fydd ei angen i ddelio â'ch achos hyd y diwedd.
- Amcangyfrif o'r costau ac unrhyw derfyn gwario cytûn.
- Unrhyw wybodaeth arall y mae angen i chi ei darparu.

Taliadau cyfreithwyr

Mae cyngor cyfreithiol, fel unrhyw beth arall yr ydych yn ei brynu, yn costio arian, ond gall fod yn werthfawr iawn. Mae'r tâl a godir yn amrywio o gyfreithiwr i gyfreithiwr, ac mae'n dibynnu ar arbenigedd a phrofiad y cyfreithiwr unigol yn ogystal â pha mor gymhleth yw'r gwaith.

Cyn penderfynu pa gyfreithiwr i'w ddefnyddio, efallai y byddwch am chwilio am y 'fargen orau'. Penderfynwch pa fath o gyfreithiwr sydd ei angen arnoch a gofynnwch i nifer o gyfreithwyr am ddyfynbrisiau. Dim ond ffi fach y bydd llawer o gyfreithwyr yn ei chodi am y cyfweiliad byr cyntaf. Mae'n werth gofyn.

Fodd bynnag, nid y gost fydd yr unig beth y bydd yn rhaid i chi ei ystyried. Uwchlaw popeth, ceisiwch ddod o hyd i gyfreithiwr yr ydych yn teimlo'n gyfforddus gydag ef ac y gallwch ddeall ei gyngor.

Cyfradd sefydlog neu fesul awr?

Nid yw cyfreithwyr bob amser yn codi tâl sefydlog am waith penodol. Codir tâl yn aml fesul awr, felly po hwyaf y bydd yn ei gymryd, y mwyaf fydd y gost. Mae'n rhaid i gyfreithiwr roi amcangyfrif o'r gost i chi ar y dechrau, yn y cyfweiliad cyntaf fel arfer.

Os dyfynnir cyfradd fesul awr, efallai y byddwch am gytuno ar derfyn gwario penodol. Os yw'n edrych yn debyg y bydd y costau yn mynd dros y terfyn hwn bydd eich cyfreithiwr yn cysylltu â chi i'ch rhybuddio a chael eich caniatâd i barhau.

Cadw mewn cysylltiad

Unwaith y byddwch wedi penodi cyfreithiwr, mae'n rhaid iddo ymgynghori â chi ar bob cam pwysig, i gadarnhau sut yr ydych am fynd ymlaen â'r achos. Yn yr un modd, mae angen i chi ddweud wrth eich cyfreithiwr am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau personol a allai effeithio ar yr achos. Mae hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau yn eich sefyllfa ariannol a allai effeithio ar eich hawl i gael cymorth cyfreithiol.

Gwneud cwyn

Bydd y cyfreithiwr yn rhoi manylion ei weithdrefn gwyno i chi. Os ydych am gwyno am eich cyfreithiwr, rhaid i chi ddefnyddio'r weithdrefn hon yn gyntaf. Os na fyddwch yn fodlon o hyd pan fyddwch wedi gwneud hynny gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Cyfreithiol drwy ffonio **0300 555 0333** neu e-bostio www.legalombudsman.org.uk Mae'r Ombwdsmon Cyfreithiol yn delio â chwynion ynghylch cyfreithwyr.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r daflen hon yn un o gyfres o daflenni am ddim sy'n ymdrin â'r mathau mwyaf cyffredin o wasanaethau cyfreithiol a ddarperir gan gyfreithwyr. Rhestrir taflenni eraill yn y gyfres isod.

Maent ar gael oddi wrth eich cyfreithiwr neu o www.lawsociety.org.uk/commonlegalproblems

Eich canllaw i ddod o hyd i gymorth cyfreithiol arbenigol

Eich canllaw i brynu cartref

Eich canllaw i wneud ewyllys

Eich canllaw i gael ysgariad

Eich canllaw i broblemau yn y gwaith

Eich canllaw i sefydlu busnes

Eich canllaw i wneud cais am iawndal oherwydd anaf personol

Eich canllaw i faterion ariannol ar gyfer pobl hŷn

Eich canllaw i roi eich eiddo ar rent

Eich canllaw i rentu cartref

Eich canllaw i brofiant

Eich canllaw i hawlio lloches

Eich canllaw i ymgartrefu gyda'ch partner

Gallwn ddarparu'r wybodaeth yn y daflen hon mewn fformatau ac ieithoedd eraill ar gais.

Cysylltwch â ni ar **020 7320 5832** neu e-bostiwch accessibility@lawsociety.org.uk

Lexcel

Chwiliwch am Lexcel – y nod rhagoriaeth ar gyfer cyfreithwyr

The Law Society 113 Chancery Lane London WC2A 1PL www.lawsociety.org.uk

Er i ni wneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth gywir, mae'r gyfraith yn newid o hyd ac yn effeithio ar bob person yn wahanol. Nid yw'r daflen hon yn disodli cyngor penodol a roddir i chi yn bersonol ac ni fyddwn yn atebol i chi os byddwch yn dibynnu ar y daflen hon.